

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod **BRY**S 07/09/2020 7:00yh – O BELL – COVID 19

Thomas Victor Jones  
William Penri Jones  
Rhian Parry (Clerc)

John Brinley Jones  
Greta Hughes

Barbra Warren  
Luned Fon Jones  
(Archwiliad Mewnol)

William Roger Jones  
David Lloyd-Williams  
(Archwiliad Mewnol)

### 1. **Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau

### 2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

Dim

### 3. **Awdit**

Mae'r Cadeirydd John Brinley Jones yn croesawu Luned Fon Jones a David Lloyd-Williams a wnaethwyd yr archwiliad mewnol l'r Cyfarfod.

Mae John Brinley Jones yn nodi bod y cyfarfod wedi ei drefnu gan fod pryderon am faterion sydd yn codi o'r archwiliad.

Mae Luned Fon Jones yn nodi ei phryderon bod yr un pethau sydd yn codi yn archwiliad 18-19 ac archwiliad 19-20;

1. **Methiant i ad hawlio TAW** – Mae Luned Fôn Jones mewnol yn bryderus nad yw'r TAW wedi ei hawlio am y ddwy flynedd diwethaf. Mae'r Clerc yn nodi bod rhwystrau wedi bod gyda mandadau bancio a bod hyn yn cymryd lot o amser yw datrys. Mae Luned Fon Jones yn nodi nad oes angen mandad banc I hawlio TAW. Nid yw'r Clerc wedi hawlio'r TAW am y ddwy flynedd diwethaf gan fod 3 mlynedd yw hawlio, felly wedi dewis blaenoriaethu materion eraill.

Mae Luned Fôn Jones yn nodi bod Rheolau Sefydlog y Cyngor Cymuned yn nodi y bydd y Clerc yn hawlio TAW yn flynyddol. Mae'r Clerc yn ymddiheuro ac yn nodi mae canllawiau newydd mae'r Clerc wedi eu llunio yw'r rhain.

2. **Methiant i baratoi cyllideb flynyddol i gefnogi'r praesept** – Mae Luned Fôn Jones yn nodi y dylai'r Clerc baratoi Cyllideb yn flynyddol. Mae'r Clerc yn amlygu nad oedd cyfrifon, cyllideb na mynediad i'r banc ar gael tan eleni; nid oedd yn gallu creu cyllideb heb unrhyw sail. Mae'r gyllideb yn cael eu creu yn fis Tachwedd ar gyfer gosod praesept felly un gyllideb flynyddol sydd wedi ei fethu gan y Clerc. Unwaith roedd gwariant am flwyddyn gyntaf y Clerc ar gael roedd yn gallu creu'r gyllideb.

Mae'r Clerc yn nodi bod cyllideb wedi eu greu ar gyfer 2020-21 a bydd eisiau creu cyllideb 2021-2022 mis Tachwedd eleni.

3. **Methiant i ystyried y cronfeydd wrth gefn pan yn pennu'r praesept** – Mae Luned Fôn Jones yn bryderus nad yw'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth y cronfeydd sydd wrth gefn gan y Cyngor Cymuned. Mae John Brinley Jones yn egluro na ellir defnyddio'r arian yma gan roddwyd yr arian i'r cyngor cymuned gyda chyfamod yn ei gyfyngu i gadw'r fynwent yn unig. Mae Luned Fôn Jones yn cytuno felly na ddelliau'r pwynt yma fod ar yr adroddiad ond dyla'r Clerc amlygu hyn wrth gyflwyno'r cyfrifon. Mae'r Clerc yn nodi bod hyn wedi ei amlinellu yn glir ar y cyfrifon sydd wedi eu cyflwyno am y ddwy flynedd diwethaf. Mae David Lloyd-Williams yn cytuno bod hyn wedi ei amlygu.

4. **Methiant i ddiwynnu TWE/YG yn briodol o gyflog y Clerc a'i dalu i CThem** – Mae John Brinley Jones yn nodi bod y Clerc wedi trio cael cwmnïau i wneud y gwaith ar ran y Cyngor Cymuned heb ddim lwc. Nid oes unrhyw gwmni wedi ymateb i ymchwiliadau'r Clerc. Mae Luned Fôn Jones yn nodi bod hyn yn anarferol iawn ac yn awgrymu y dylai ffeindio cwmni i wneud y gwaith cyn gynted a bod modd. Mae'r Clerc yn nodi nad yw'n fodlon neud y gwaith ei hun gan ddylai trydydd parti fod yn gyfrifol am hyn.

Clerc – Rhian Parry • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – John Brinley Jones • [john@ppm-technology.com](mailto:john@ppm-technology.com) • 07775 577 869 •

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

## Cofnodion Cyfarfod **BRY**S 07/09/2020 7:00yh – O BELL – COVID 19

Mae David Lloyd-Williams yn awgrymu defnyddio 'Basic Pay Tools' dros y we. Mae'r Cyngor Cymuned yn awyddus i edrych i mewn i hyn ac y bydd yn trafod ymhellach yn y pwyllgor nesaf.

- 5. Methiant i adnabod gwerth asedau'r Cyngor ar y gofrestr asedau** – Mae John Brinley Jones eisiau eglurhad ar sut i brisio tir sydd wedi bod yn eiddo'r cyngor cymuned ers blynyddoedd maith. Mae Luned Fôn Jones yn awgrymu rhoi 'gwerth enwol' bychain ar y tir. Nid yw'n glir beth yw oblygiadau hyn o safbwynt yswiriant. Mae'r Clerc yn nodi bod y rhestr asedau wedi bod yn ôl ac ymlaen i'r pwyllgorau heb unrhyw benderfyniad. Diolch I David Lloyd-Williams am rannu templed gyda'r Clerc yw ddefnyddio ar gyfer y rhestr.
- 6. Methiant i gynnal cysoniad cywir, sicrhau bod cyfrifon yn cytuno â'r banc a bod y datganiad blynyddol yn cael ei gwblhau yn gyflawn a chywir.** – Mae'r Clerc yn amlygu eto nad oedd mynediad i gyfrifon y Cyngor Cymuned gan nad oedd unrhyw un o'r enwau a oedd ar y mandadau bellach yn rhan o'r Cyngor Cymuned. Cafwyd adroddiad o NatWest mis Chwefror 2020, felly roedd yn anodd iawn neud y cyfrifon llynedd. Mae David Lloyd-Williams yn nodi bod y cyfrifon blynyddol yn cytuno gyda'r banc ond mai gwall hanesyddol bychain sydd yn achosi'r broblem. Mae Luned Fôn Jones yn nodi'r deliau hyn cael ei amlygu ar y cyfrifon. Mae'r Clerc yn cadarnhau bod hyn wedi ei nodi ar y cyfrifon ac y bydd angen eu cofnodi i'r dyfodol.

Mae Luned Fon Jones yn bryderus y bydd hyn yn broblem i'r dyfodol. Mae'n risg y bydd y BDO / Archwilio Cymru eisiau gwneud archwiliad llawn o'r Cyngor Cymuned.

Mae'r Clerc a'r Cadeirydd yn nodi nad oes cworum bellach yn bresenol gan fod aelodau wedi gadael y cyfarfod. Mae John Brinley Jones yn Diolch I Luned Fon Jones ac David Lloyd-Williams am fynychu'r cyfarfod ac yn fawr gobeithio y bydd y sefyllfa yn well at archwiliad 2020-21.

Clerc – Rhian Parry • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – John Brinley Jones • [john@ppm-technology.com](mailto:john@ppm-technology.com) • 07775 577 869 •